Wellbeing Friends

HEALTHY BLAENAVON
BLAENAFON IACH

# Cylchlythyr cyfeillion llesiant Blaenavon Mawrth 2023

## Beth sydd ar gael i bobl ifanc ym Mlaenafon?

**Rydym yn aml yn clywed "nad oes unrhyw beth ar gael i bobl ifanc ym Mlaenafon." Felly, y mis hwn, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar rai o'r darpariaethau gwych sydd ar gael.**

**Mae Llysgenhadon Ieuenctid Treftadaeth y Byd (Yams yn Saesneg)) yn cael ei gynnal bob nos Fercher, 5.30pm-8.30pm, yn Yr Hwb. Rydym yn brosiect strwythuredig sy'n darparu dau o weithgareddau'r noson, er enghraifft, un yn seiliedig ar Dreftadaeth y Byd a'r llall ar lesiant ond rydym hefyd yn coginio a bwyta pryd o fwyd gyda'n gilydd, ynghyd â chael amser rhydd i chwarae pŵl, dawnsio neu sgwrsio er enghraifft. Fel rhan o'n prosiect, rydym yn cynnal y rhannu bwyd Greggs sydd ar agor i unrhyw un gael dod i gasglu bwyd sydd dros ben (pasteiod, cacennau, toesenni, rholiau etc) rhwng 6.30pm a 7.00pm. Cysylltwch â Seren ar 07729224419 neu seren.gunningham@thehwb.org am ragor o wybodaeth.**






## Gadwch i ni glywed beth sydd gan y bobl ifanc i'w ddweud...



**Ymunais ag Yams ym mis Awst 2021 ac rwyf wedi bod ar sawl taith. Yn ystod f'amser yn Yams rwyf wedi bod i Gôr y Cewri, Iron-bridge, dringo creigiau, Ynys y Barri, Gorllewin Canolbarth Lloegr. Daeth y Tywysog William a Kate Middleton i ymweld â ni hefyd. Ym mis Mai 2022, aethom i aros yn Iron-bridge, hwn oedd un o fy hoff deithiau. Un arall o fy hoff deithiau oedd Côr y Cewri. Fy hoff ran o Iron Bridge oedd mynd i Blitz Hill lle'r oedd modd i ni wario arian Fictoraidd, mi wnes i fwynhau mynd i Barc Thema Gorllewin Canolbarth Lloegr hefyd, mi es ar y Drop Tower ac roeddwn yn ofnus iawn. Mae Yams yn golygu llawer i mi, rwyf wedi gwneud ffrindiau, rwyf wedi dysgu llawer am safleoedd treftadaeth y byd ac rwyf wedi magu hyder. Rwy'n edrych ymlaen yn arw i gael profiad o fwy o safleoedd Treftadaeth y Byd yn y dyfodol.**



**Mae Llysgenhadon Ieuenctid yn lle bendigedig i fynd, mae'n lle cysurus i blant a phobl ifanc. Mae'n llawn o bobl wych a'r staff gorau y byddech yn eu dymuno. Gan fy mod i'n newydd i'r lle hwn, rwy'n teimlo mod i'n gallu rhannu fy meddyliau a syniadau ac rwyf wedi magu cymaint o hyder. Mae ganddynt rywbeth newydd i chi ei fwynhau bob wythnos! Mae bod yn y Llysgenhadon Ieuenctid yn wych, fe wnânt helpu os oes angen rhywbeth arnom sydd ddim gennym. Rydym hyd yn oed yn helpu pobl tu allan i Lysgenhadon Ieuenctid. Mae popeth sydd yma yn well na'r disgwyl. Mae'r lle yma'n ymwneud â bod yn gymdeithasol ac mae'n dangos i chi bod yna fwy na dim ond bod yn sownd i electroneg, neu unrhyw beth sy'n eich dal yn ôl. Rydym wrth ein bodd yn gwirfoddoli ac yn mynd ar lwyth o dripiau gyda'n gilydd. Hyd yn hyn dyma un o'r grwpiau ieuenctid gorau rwyf wedi bod ynddynt erioed!**

# Darpariaeth ieuenctid yr Hwb

**Mae'r Hwb yn elusen ieuenctid sydd wedi ei lleoli ar Heol Lydan, Blaenafon ac yn gweithio gyda phobl ifanc 11-25 oed. Mae'n cynnal darpariaeth mynediad agored o ddyddiau Llun 4.30-7.00pm, dyddiau Mawrth 4.30-7.00pm a dyddiau Iau 4.00-6.00pm.  Gall pobl ifanc ddysgu coginio, ymuno â gweithgareddau crefft a gemau neu dreulio amser gyda'u ffrindiau, yn chwarae pŵl a gwrando ar gerddoriaeth. E-bost er gwybodaeth**

**youthclub@thehwb.org**







**Tîm strategol Ieuenctid Blaenafon**

**Clwb ar ôl oriau ysgol 5-11 oed. Mae yna lawer o weithgareddau yn cynnwys pŵl iau, hoci aer, celf, gemau bwrdd, tenis bwrdd, pêl-droed bwrdd, karaoke, siop fwyd. Mae croeso bob amser i aelodau newydd. Am ragor o fanylion, ffoniwch:- 07764991220**





# Clwb ieuenctid Lefel Nesaf

**Clwb Ieuenctid yr Eglwys yw Lefel Nesaf ar gyfer plant 11-16 oed (blwyddyn 7-11) yng Nghapel Moriah, Blaenafon Mae'n cael ei gynnal ar nosweithiau Iau ac mae yna weithgareddau megis hoci aer a thenis bwrdd. Mae hefyd yn cynnig Alffa Ieuenctid i'r rhai sydd â diddordeb mewn dysgu am Gristnogaeth. Maent yn cynnal digwyddiadau arbennig yn rheolaidd megis bbq, nosweithiau ffilm a phartïon pizza.**









**Cafodd rysáit ar gyllideb lai y mis hwn ei greu gan y bobl ifanc yn yr Hwb. Pasta tomato yn y popty: 1 tun o gawl tomato, 400g o basta, halen garlleg, pinsiad o berlysiau cymysg, digon o gaws!**

**Berwch y pasta yn ôl y cyfarwyddiadau ar y paced; cymysgwch y cawl, perlysiau a halen garlleg (neu puree); gosodwch y pasta mewn dysgl addas i'r popty a thywalltwch y cymysgedd cawl drosto. Gorchuddiwch â chaws a choginiwch nes mae wedi crasu.**





